

CYTUNDEB RHODD

CYMEN

a

Prifysgol Bangor

1. RHAGARWEINIAD

Pwrpas y cytundeb hwn yw crynhoi'r gyd-ddealltwriaeth sydd rhwng CYMEN (Y Rhoddwr) a Prifysgol Bangor ynglŷn â'u rhodd o £8,250 (llawn amser) neu £8,262 (rhan amser) i gefnogi myfyriwr/myfyrywyr ar MSc hyfforddedig trwy Ysgoloriaeth yn yr Adran Ieithyddiaeth, sy'n rhan o'r Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau. Caiff y cytundeb ei wneud fel rhan o gofnodion parhaol Prifysgol Bangor a'r bwriad yw y bydd yn arweiniad i'r rhai a fydd yn gweinyddu'r arian a roddir yn awr ac yn y dyfodol.

2. PRIFYSGOL BANGOR

Mae Prifysgol Bangor yn Elusen Gofrestredig â'r rhif 1141565

3. DISGRIFIAD O'R RHODD

Trwy'r rhodd, dymuna'r rhoddwr ddangos eu cefnogaeth i Brifysgol Bangor trwy ariannu ffioedd un myfyriwr llawn amser neu ddau fyfyriwr rhan amser trwy Ysgoloriaeth Gradd MSc hyfforddedig mewn Technolegau Iaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Adwaenir y rhodd fel "Ysgoloriaeth Cymen".

4. DEFNYDDIAU A CHYFYNGIADAU'R RHODD

Caiff y rhodd ei defnyddio a'i dosbarthu fel a ganlyn:

- a. Bydd y rhoddion yn ariannu ffioedd dysgu un myfyriwr llawn amser neu ran amser dros ddwy flynedd trwy Ysgoloriaeth Gradd MSc hyfforddedig mewn Technolegau Iaith trwy gyfrwng y Gymraeg.
- b. Adwaenir y rhodd fel "Ysgoloriaeth Cymen"
- c. Bydd y derbynwyr yn cydymffurfio â holl reolau a rheoliadau Prifysgol Bangor.

5. ADRODD I'R RHODDWR

Mae'n ofynnol i'r derbynwyr gydnabod cefnogaeth y rhoddwr yn eu Traethawd Hir/Traethawd Ymchwil. Bydd yr Adran Ieithyddiaeth yn hysbysu'r rhoddwr am gynnydd y myfyriwr(myfyrwyr).

6. YSTYRIAETHAU A CHYDNABYDDIAETH O RAN ENWI

Adwaenir yr Ysgoloriaeth fel "Ysgoloriaeth Cymen". Caiff ei rhestru ar Restr Rhoddwyr Prifysgol Bangor a gall fod cyfeiriadau ati yn neunyddiau marchnata a chyhoeddiadau'r Brifysgol.

7. DEWIS DERBYNNYDD YR YSGOLORIAETH

Cyfrifoldeb cynrychiolydd yr Uned Technolegau Iaith, yw'r broses ymgeisio a dewis ym Mhrifysgol Bangor, sef naill ai, Gruff Prys neu Stefano Ghazzali, Cyfarwyddwr y Cwrs MSC, Marco Tamburelli a chynrychiolydd Cymen naill ai Manon Cadwaladr neu Aled Jones. Caiff yr ymgeisydd llwyddiannus ei ddewis/ei dewis ar sail teilyngdod academiaidd a gall fod o'r Deyrnas Unedig neu'n rhyngwladol ond bydd gofyn iddo/iddi astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

8. GWEINYDDU'R RHODD

Caiff y rhodd ei rheoli gan yr adran gyllid yn unol â pholisïau cyllid y Brifysgol.

9. AMGYLCHIADAU ANNISGWYL

Rywbryd yn y dyfodol, er mor anhebygol yw hynny, os daw'n amhosibl gweinyddu'r rhodd yn gwbl unol â'r pwrpas penodol dros ei rhoddi, bydd y Brifysgol yn gorchymyn bod yr arian yn cael ei neilltuo i'r dibenion sydd fwyaf cyson â dymuniadau'r rhoddwr gan ymgynghori â'r rhoddwr.

10. SUT I WNEUD CAIS: CANLLAWIAU

Yn y system ymgeisio ar-lein cwblhewch yr adrannau yn ôl yr angen, o dan y tab rhaglen dewiswch Ôl-raddedig / Meistr a Addysgir.

The screenshot shows a navigation menu with the following items: Ceisiadau, Dewislen (highlighted), Personol, Rhaglen, Gwybodaeth ychwanegol, Cysylltu, Addysg, Cyflogaeth, Iaith, Cyllid, Dogfenau. Below the menu, the heading "Dewis cyrsiau sydd ar gael" is followed by several course selection buttons. The button for "Cyrsiau ôl-radd (MSc, MA, MBA, LLM)" is circled in yellow. Other visible options include "Cyrsiau is-radd (BSc, BA, LLB)", "Ymchwil ol-radd (PhD, EDD, MPhil, Masters by Research)", "MRes", "Ceisiadau di-radd / modiwlau unigol", "Mynediad cyfyngedig (angen cyfrinair)", and "Dysgu o bell".

Yna dewiswch 'MSc Language Technologies' fel y cwrs rydych yn gwneud cais amdano.

Dewis cwrs *

MSc Language Technologies (MSC/LT Q1BC)

Part time *

Full time

If you do not require a student visa and wish to study part-time or via distance-learning, select 'Part time' here.

Cychwyn *

Dewiswch dyddiad cychwyn...

Ychwanegu

Canslo

Yna, o dan y tab 'Cyllid' mae angen i chi ddewis **efrydiaeth a hysbysebwr gan Brifysgol Bangor** a adio **Ysgoloriaeth Cymen** ym maes 'Enw'r Efridiaeth a hysbysebwr'. Mae angen hefyd nodi 'nac ydy' o dan faes 'Ydy'r cyllid yma wedi cael ei ddyfarnu i chi?'

Ariannu Eich Astudiaethau

Sut byddwch chi'n ariannu eich astudiaethau? * Efridiaeth a hysbysebwyd gan Prifysgol Bangor

Enw'r efridiaeth a hysbysebwr * Ysgoloriaeth Cymen

Ydy'r cyllid yma wedi cael ei ddyfarnu i chi? * Ydy Nac ydy

Cadw a pharhau

Talu eich hunain

Mae hyn yn golygu y byddwch chi ac / neu eich teulu yn talu'r ffioedd dysgu a'r costau byw.

Rydw i'n chwilio am ysgoloriaeth lawn

Mae hyn yn golygu eich bod yn gofyn am ysgoloriaeth lawn i dalu am y ffioedd dysgu a'r costau byw. Ni all Prifysgol Bangor gynnig unrhyw ysgoloriaeth LLAWN ar hyn o bryd.

Weddi'i noddi'n llawn

Mae hyn yn golygu eich bod wedi sicrhau, neu'n gwneud cais am noddiwr e.e. y llywodraeth, cyflogwr, sefydliad am gymorth ariannol i dalu costau astudio a byw ym Mangor.

Am gyngor cyffredinol ar sut i wneud cais ac ynghylch cymwysterau, e-bostiwch:

cahb.pg@bangor.ac.uk